CYNGOR CYMUNED LLANDDYFNAN

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD NOS FAWRTH
18 Gorffennaf 2017, Gosen, Llangwyllog
am 7:00 y.h.

YN BRESENNOL: Cyng D Pritchard, W Vaughan, D Morgan, A Wyn, D ap Rhobert, W Williams, Cyng D Rees (Cyngor Sir)	
YMDDIHEURIADAU: Cyng A Williams, D Roberts.	
1	Cadeirwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng D Pritchard.
2	**DATGAN DIDDORDEB** - Dim
3	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 20 Mehefin 2017. Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir a chyflawn.
4	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Gofeb Talwrn** - mewn llaw
4.2	**Damwain sgwar Talwrn** - Bydd y Clerc yn atgoffa y Cyngor Sir
4.3	**Halfway, Talwrn (ildio)** - Bydd y Clerc yn atgoffa y Cyngor Sir
4.4	**Polisi y Cyngor Sir ar dysgu Cymraeg.** Cytunwyd i drafod yn y cyfarfod nesaf.
4.5	**Mynwent Llanddyfnan -** Mae'r gwaith wedi cael ei wneud unwaith eto a'r turchod ddaear wedi cael ei dal.
5	**GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON**
	Cynllunio
5.1	23C344 Cais llawn i godi garej ar dir yn Tyn Beudy, Talwrn - dim sylwadau
	Adran Addysg
5.2	Ymgynghoriad ar Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017. Bydd y Clerc yn anfon y linc i pawb a rhoi y mater ar yr agenda nesaf.
	Pwyllgor Safonnau
5.3	Hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad. Bydd y Cyngor Sir yn cynnig hyfforddiant ar y Côd Ymddygiad. Mwy o wybodaeth i'w ddilyn
	Priffyrdd
5.4	Lon Ceint o arwydd 30 Talwrn tuag at Lon Penmynydd - bydd y gwaith (torri'r ffyrdd) yn cael ei wneud yn y tair wythnos nesaf.
	Adran Polisi
5.5	Llythyr gan y Cyngor Sir yn gofyn i pob Cyngor Cymuned enwebu pencampwyr iaith. Cynigodd Cyng D Morgan cynrychioli Llanddyfnan.
6	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
6.1	Unllais Cymru - cyfarfod blynyddol 30.09.17 - gwybodaeth yn unig
	Llofnod…….Cadeirydd 12.09.17

7	**MATERION ARIANNOL**
	Cytunwyd i dalu:
7.1	The Mole Man £175.00
8	**MATERION ERAILL**
8.1	Llwybr cyhoeddus Bodffordd - Llyn Frogwy. Gofynwyd i'r Clerc cofnodi bod trigolion Bodffordd wedi cerdded y llwybr 17.05.16 ond methu cerdded y llwybr yn iawn oherwydd bod y stepiau ar y gamfa yn beryglus iawn. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.
8.2	Fforwm Mynediad Lleol - Dywedodd Cyng D ap Rhobert bod y Fforwm yn gobeithio agor y rheilffordd Amlwch - Gaerwen a bod pethau yn mynd yn dda iawn. Mae pob peth yn dibynnu ar y cais i'r loteri
8.3	Ymgynghoriad Ysgolion ardal Llangefni - Dywedodd Cyng D Rees bod y Pwyllgor Gwaith am ail-ymgynghori oherwydd y nifer o plant ac yn gwneud asesiad ar effiath y cymuned ar cau Ysgol Talwrn.
8.4	Perchnogaeth Mynwent Llanddyfnan - Rhai misoedd yn ôl roedd y ffens ar ochr y maes parcio wedi gostwng ac roedd perchennog y tir (y caeau) wedi gosod giatiau ar draws y ffordd sy'n arwain at y fynwent. Atgyweiriwyd y ffens a chafodd y giatiau eu dynnu gan y Cyngor Sir. Darganfu'r Clerc fod y tir a'r fynwent wedi cael ei brynu gan y Cyngor Sir ond nid oes cofnod ohono'n cael ei drosglwyddo i'r Cyngor Cymuned. Mae'r Cyngor Sir yn edrych ar y mater ar hyn o bryd.
8.5	Meinir - gweler cofnodion 16.05.17 (4.4). Trafodwyd cwyn am meinir ar ochr y ffordd ar y ffordd yn mynd i lawr i Pentraeth o cyfeiriad Talwrn. Bydd y Clerc yn dod a'r mater at sylw y Cyngor Sir.
9	**MATERION AR GYFER Y RHAGLEN NESAF**
9.1	Rheilau o gwmpas y gofeb
9.2	Safle bws - tai cyngor Talwrn
9.3	Tyfiant o gwmpas arwydd y siop
9.4	Llwybr Bodffordd - Llyn Cefni - tyllau a baw ci
9.5	Polisi y Cyngor Sir ar cwn ar y traethau
	Llofnod…….Cadeirydd 12.09.17